

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) a'r Ddeddf Hawliau Rhentwyr – Beth maent yn ei olygu ar gyfer rhentwyr cymdeithasol yng Nghymru?

Mai 2026

Beth yw'r Ddeddf Hawliau Rhentwyr?

Mae'r Deddf Hawliau Rhentwyr yn newid yn y gyfraith dan arweiniad Llywodraeth y DU i wella hawliau tenantiaid. Mae'r Ddeddf newydd hon yn cael sylw yn y cyfryngau ar hyn o bryd a rydym eisiau esbonio sut mae'n effeithio arnoch chi fel rhentwyr tai cymdeithasol yng Nghymru.

Yng Nghymru, fe wnaeth y Deddf Hawliau Rhentwyr newid deddfwriaeth rhentu Cymru – 'Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru)'. Mae dau beth yn newid i rentwyr cymdeithasol (a rhentwyr preifat) Cymru fel canlyniad i hyn. Daw'r newidiadau hyn i rym ar 1 Mehefin 2026.

Felly beth yw'r newidiadau?

Mae'r contract ar gyfer eich eiddo rhent yn newid.

Mae'n rhaid i'ch contract gynnwys gwybodaeth newydd ('telerau') sy'n golygu na all landlord wahaniaethu yn eich erbyn os ydych yn hawlio budd-daliadau neu os oes gennych blentyn yn byw gyda chi neu'n ymweld â'ch cartref.

Pwyntiau allweddol:

- Gall landlordiaid barhau i gyfyngu plant mewn eiddo mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft os yw'n golygu y byddai eich cartref yn orlawn. Nid yw hyn yn ddim gwahanol i'r arfer presennol – os gallwch gael plant yn byw gyda chi neu'n ymweld â chi nawr, ni fydd hyn yn newid.
- Mae'n rhaid i landlordiaid gysylltu â chi i adael i chi wybod erbyn 14 Mehefin 2026, wyneb yn wyneb, drwy'r post neu drwy e-bost (lle'r ydych wedi dweud ei bod yn iawn iddynt eich e-bostio). Dylech gysylltu â nhw os nad ydych wedi clywed ganddynt erbyn y dyddiad hwn.

- Pan fyddant yn cysylltu â chi, byddant naill ai'n rhoi copi newydd o'ch contract neu ddatganiad ysgrifenedig o'r hyn sydd wedi newid.
- Mae'r newidiadau hyn yn weithredol ar gyfer pob contract presennol a chontract newydd.
- Ni fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y y rhan fwyaf o bobl mewn gwirionedd ond byddant yn sicrhau fod gennych hawliau cyfreithiol newydd.

Mae gwybodaeth fwy manwl gan Lywodraeth Cymru ar gael [yma](#).

Dalier sylw: mae 'plentyn' yn y cyd-destun yma yn golygu person dan 18 oed.

Felly beth mae hyn yn ei olygu i chi?

Mae'r telerau newydd yn eich contract yn annhebyg o newid unrhyw beth i chi yn syth, ond mae'n golygu y caiff nawr ei ddiogelu yn y gyfraith. Ni chaniateir i landlordiaid wahaniaethu yn eich erbyn os ydych yn hawlio budd-daliadau neu os oes gennych blentyn yn byw gyda chi neu'n ymweld â'ch cartref.

Mae landlordiaid cymdeithasol eisoes yn ymroddedig fel ymarfer safonol i drin pobl sy'n hawlio budd-daliadau a gyda phlant yn deg a heb wahaniaethu. Os oes cyfyngiadau ar hyn o bryd ar blant yn eich eiddo, mae'n debyg y byddant yn dal i fod yn weithredol. Er enghraifft, os na fedrwyd gael plant yn eich eiddo ar hyn o bryd oherwydd maint yr eiddo neu'r math o eiddo – tebyg i lety ar gyfer pobl hŷn – byddai hyn yn parhau yr un fath pan fydd eich contract yn newid hefyd.

Mae hyn oherwydd fod y gyfraith yn dweud fod yn rhaid i unrhyw gyfyngiad fod yn ffordd gymesur i gyflawni nod ddilys.

Gall enghreifftiau o nod ddilys gynnwys:

- Gorlenwi
- Pryderon am iechyd neu ddiogelwch
- Bod y math o lety yn anaddas e.e. tai pobl hŷn
- Llety arbenigol, tebyg i lety ar gyfer rhai sy'n cael eu trin ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

Siaradwch gyda'ch landlord os ydych yn ansicr.

Cwestiynau cyffredin

A oes gen i ddewis am y newidiadau contract yma ac oes angen i mi wneud unrhyw beth i gadarnhau hynny?

Mae'r newidiadau yn weithredol ar gyfer pob contract meddiannaeth ar gyfer pawb sy'n rhentu. Cawsant eu cynllunio i ddiogelu tenantiaid rhag gwahaniaethu yn eu herbyn. Dim ond gyda chaniatâd y landlord a hefyd y tenant y mae'r gyfraith yn caniatáu iddynt gael eu dileu neu eu haddasu, os byddai hynny er budd y tenant. Mae hyn yn annhebygol o fod yn wir ar gyfer y rhan fwyaf o denantiaid. Os ydych yn ansicr, siaradwch gyda'ch landlord as gwelwch yn dda. Ni fydd angen i chi wneud unrhyw beth, tebyg i lofnodi unrhyw beth, i'w gadarnhau.

A all fy mhlant neu fy llys blant symud i fewn gyda fi nawr? A fedraf fabwysiadu neu ddechrau maethu?

A fydd angen i fi hysbysu fy landlord yn ffurfiol os yw fy mhlant yn dechrau byw gyda fi?

Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau penodol. Os oedd rheswm dilys yn ei le o'r blaen drwy eich contract neu bolisi y landlord (e.e. maint yr eiddo neu'r math o dŷ) yna mae hyn yn debygol o barhau i fod yn weithredol hyd yn oed gyda'r ddeddfwriaeth newydd. Dan y rhan fwyaf o gontractau meddiannaeth, disgwylir i chi ddweud wrth eich landlord am unrhyw newidiadau sylweddol i'ch aelwyd, yn cynnwys os oes plant, llys-blant, plant maeth neu aelodau eraill o'ch teulu yn dechrau byw gyda chi ar sail barhaol neu hirdymor.

Dylech gyfeirio at eich contract a pholisïau eich landlord a gofyn iddynt am help os ydych yn ansicr.

A fedrwn gael fy ngorfodi i symud i gartref llai fel canlyniad i'r newid yma?

Na, bydd gan eich contract yr un mesurau diogelu ag sydd gennych nawr.

A allaf wneud cynnig am eiddo tai cymdeithasol neu wneud cais i ffeirio cartref os oes gennyf blant?

Gallwch, mae hyn yn arferol. Dim ond os yw'n anaddas y bydd cyfyngiadau yn weithredol e.e. rhy fach neu wedi ei adeiladu'n arbennig ar gyfer pobl hŷn.

Beth os wyf yn byw mewn llety gwarchod?

Os ydych yn byw mewn llety gwarchod ar gyfer pobl hŷn a ni chaniateir i blant fyw yn eich eiddo ar hyn o bryd, mae hyn yn debygol o barhau. Mae hyn oherwydd y gall eich landlord ystyried fod angen hyn i sicrhau amgylchedd addas ar gyfer yr holl breswylwyr neu

oherwydd gofynion cyfreithiol. Dylech gysylltu â'ch landlord os oes gennych unrhyw bryderon.

Sut mae landlordiaid cymdeithasol yn rhoi gwybod i denantiaid am y newidiadau yma, yn arbennig y rhai gydag anghenion ychwanegol?

Bydd landlordiaid yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig i chi o'r newidiadau hyn erbyn 14 Mehefin, gan gadarnhau beth sy'n newid a pham a, lle'n berthnasol, gyfeirio adnoddau ychwanegol sydd ar gael. Bydd tenantiaid gydag anghenion neilltuol yn parhau i gael eu cefnogi fel sy'n briodol.

Beth os wyf yn credu fod gwahaniaethu yn fy erbyn er gwaethaf yr hawliau newydd yma?

Dylech godi'r pryderon hyn gyda'ch landlord yn y lle cyntaf. I gael mwy o gyngor, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu eich bod yn cysylltu â Shelter Cymru.

A oes unrhyw sefyllfaoedd lle gallai hawlio budd-daliadau ddal i gael effaith anuniongyrchol ar benderfyniadau tenantiaeth?

Ni all landlord wahaniaethu yn eich erbyn ar y sail eich bod yn hawlio budd-daliadau. Maent yn dal i fedru cynnal asesiadau fforddiadwyedd i sicrhau y gallwch fforddio talu'r rhent. Dylai'r gwiriadau hyn ystyried pob ffynhonnell o incwm yn deg, yn cynnwys cyflogau, pensiynau, taliadau cynhaliaeth a budd-daliadau.

Renting Homes (Wales) Act and Renters' Rights Act - What does it mean for social renters in Wales?

May 2026

What is the Renters' Rights Act?

The Renters' Rights Act is a UK Government-led change of law to improve tenants' rights. There is currently media coverage of this new Act and we want to explain how it impacts you as renters in social homes in Wales.

In Wales, the Renters Rights Act changed the Welsh renting legislation - 'the Renting Homes (Wales) Act'. As a result of this, 2 things are changing for you as Welsh Social renters (and Private renters). These changes come into effect from June 1st 2026.

So what are the changes?

The contract for your rental property is changing.

Your contract must contain new information ('terms') that means a landlord cannot discriminate against you if you claim benefits or have a child live with you or visit your home.

Key points:

- Landlords may continue to limit children in properties in some circumstances, for example if it would mean your home would be overcrowded. This is no different than current practice - if you're able to have children live with or visit you now, this will not change.
- Landlords must contact you to let you know by 14th June 2026, in person, by post or by email (where you've said it's ok to email you). If you have not heard from them by this date, you should contact them.
- When they contact you, they will give you either a new copy of your contract or a written statement of what has changed.
- These changes apply to all existing and new contracts.

- For most people, these changes won't really impact you but will ensure you have new legal rights.

More detailed information from the Welsh Government can be found [here](#).

Key to note: 'child' in this context means a person under the age of 18

So what does that mean for you?

The new terms in your contract are unlikely to change anything for you immediately, but it does mean it's now protected in law. Landlords are not allowed to discriminate against you if you claim benefits or have a child live with you or visit your home.

As standard practice, social landlords are already committed to treating people claiming benefits and with children fairly and without discrimination. If there are currently restrictions on children in your accommodation, these are likely to still apply. For example, if you currently cannot have children at the property because of the size of the property or the type of property - such as accommodation for older people - this would continue to be the case when your contract changes too.

This is because the law says any restriction must be a "proportionate means of achieving a legitimate aim".

Examples of 'legitimate aim' may include:

- Overcrowding
- Health and safety concerns
- The type of accommodation being unsuitable e.g. older people's housing
- Specialist accommodation, such as for those being treated for substance misuse.

If in doubt, speak to your landlord.

FAQs

Do I have a choice about these new contract changes, and do I need to do anything to confirm it?

The changes apply to all occupation contracts for all renters. They are designed to protect tenants from discrimination. The law only allows them to be removed or modified, with both landlord and tenant permission, if it would leave the tenant better off. This is unlikely to be the

case for most tenants. If you are unsure, please speak to your landlord. You will not need to do anything, such as sign anything, to confirm it.

**Can my children or step children move in with me now? Can I adopt or start fostering?
Will I need to formally notify landlords if children begin living with me?**

This will depend on your specific circumstances. If there was a legitimate reason that was in place before through your contract or the landlord's policy (e.g. size of property or type of housing) then this is likely to continue to apply even with the new legislation. Under most occupation contracts, you are expected to tell your landlord about any significant changes to your household, including if children, stepchildren, foster children, or other family members begin living with you on a permanent or long-term basis.

You should refer to your contract and your landlord's policies and ask them for help if you're unsure.

Could I be downsized as a result of this change?

No, your contract will have the same protections as it does now.

Can I bid for a social housing property, or apply for houseswap, if I have children?

Yes, this is standard practice. Restrictions only apply if the property is unsuitable e.g. too small or specially built for older people.

What if I live in sheltered accommodation?

If you live in sheltered accommodation for older people, and children are not currently permitted to live in your property, this is likely to continue to be the case. This is because your landlord may consider this necessary to ensure a suitable environment for all the residents or due to legal requirements. If you have any concerns, you should contact your landlord.

How are social landlords communicating these changes to tenants, especially those with additional needs?

Landlords will give you written confirmation of these changes by 14th June, confirming what is changing and why and, where relevant, signposting additional resources that are available. Tenants with particular needs will continue to be supported as appropriate.

What should I do if I believe I am being discriminated against despite these new rights?

You should raise these concerns with your landlord in the first instance. For further advice, the Welsh Government guidance suggests you contact Shelter Cymru.

Are there any scenarios where benefit claims could still indirectly affect tenancy decisions?

A landlord cannot discriminate against you on the basis of being a benefit claimant. They are still able to undertake affordability assessments to ensure you can afford to pay the rent. These checks should consider all sources of income fairly, including wages, pensions, maintenance payments, and benefits.